Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

The Concordat
to Support the Career Development of Researchers

Universities UK

# Adroddiad Blynyddol y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr

| | |
|---|---|
| Enw'r Sefydliad | Prifysgol Wrecsam |
| Cyfnod adrodd | Ionawr 2024-Ionawr 2025 |
| Dyddiad cymeradwyo gan y corff llywodraethu | 7 Mawrth |
| Dyddiad cyhoeddi ar-lein | 17 Mawrth |
| Cyfeiriad gwe yr adroddiad blynyddol | https://wrexham.ac.uk/cy/ymchwil/ein-hymchwil/concordat-datblygu-ymchwilwyr/ |
| Cyfeiriad gwe gwefan y Concordat Datblygu Ymchwilwyr sefydliadol | https://wrexham.ac.uk/cy/ymchwil/ein-hymchwil/concordat-datblygu-ymchwilwyr/ |
| Unigolyn cyswllt ar gyfer cwestiynau/pryderon yn ymwneud â datblygiad gyrfa ymchwilwyr | Yr Athro Mandy Robbins- mandy.robbins@wrexham.ac.uk<br><br>Frances Thomason Frances.thomason@wrexham.ac.uk |
| Datganiad data wedi'i anfon at ysgrifennydd y Concordat Datblygu Ymchwilwyr drwy CDRsecretariat@universitiesuk.ac.uk | 17 Mawrth |

-

| |
|---|
| **Datganiad ar sut mae'r sefydliad yn creu, yn cynnal ac yn mewnosod diwylliant ymchwil sy'n cynnal amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol i ymchwilwyr ar bob cam o'u gyrfa.** |
| Mae ein hymrwymiad i fabwysiadu diwylliant ymchwil cynhwysol a chydweithredol yn ganolog i' Weledigaeth, Gwerthoedd a Strategaeth 2030 newydd y Brifysgol. Rydym ni'n blaenoriaethu'r arfer o feithrin a chefnogi ein staff a myfyrwyr i gyflawni canlyniadau ymchwil rhagorol ag iddynt draweffaith. Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo i'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu yn y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr, sy'n arwain ein cefnogaeth tuag at bob ymchwilydd, yn cynnwys staff a myfyrwyr.<br><br>Drwy sicrhau bod pob aelod o staff academaidd a myfyrwyr ymchwil yn elwa o'r Concordat, rydym ni'n cyfnerthu ein hymrwymiad i ddatblygu ymchwil a diwylliant cynhwysol ym mhob cyfnod o yrfa. Ers llofnodi'r Concordat Datblygu, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi cael y dasg o oruchwylio a chymeradwyo pob adroddiad blynyddol a chynllun gweithredu sy'n ymwneud â'r fenter hon.<br><br>Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil yn gyfrifol am weithredu'r Concordat, gyda goruchwyliaeth llywodraethiant ffurfiol gan y Pwyllgor Ymchwil. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys uwch-reolwyr, arweinwyr ymchwil, staff ymchwil ar gontract, a chynrychiolwyr o blith myfyrwyr ymchwil ôl-radd. Bellach yn ei drydedd flwyddyn, mae Gweithgor y Concordat Datblygu Ymchwil yn parhau i ymestyn ei ddylanwad, hyrwyddo cyfranogiad ac annog aelodau i ddod yn 'Hyrwyddwyr' dros ddatblygiad ymchwil. Mae'r grŵp yn cynnwys tri athro, dau brif ddarlithydd, chwe aelod o staff academaidd, tri aelod o staff ymchwil yn unig, a naw aelod o staff gwasanaeth proffesiynol.<br><br>Mae'r Swyddfa Ymchwil yn rheoli gweithrediadau y grwpiau hyn, ac, yn ddiweddar, penderfynasom weithredu cadeirydd treigl ar gyfer pob cyfarfod y gweithgor er mwyn cyfnerthu arweinyddiaeth, cydweithredu a pherchnogaeth o ddatblygiad gyrfaoedd ymchwil.<br><br>Yn ystod cyfnod yr adroddiad, roedd buddiolwyr y Concordat yn cynnwys 252 staff academaidd ar gontractau ymchwil ac addysgu, 65 o fyfyrwyr ymchwil ôl-radd, a 14 aelod o staff ar gontract ymchwil yn unig. |
| **Amcanion strategol a chynlluniau gweithredu y Sefydliad ar gyfer cyflawni pob un o dair agwedd allweddol y Concordat.**<br><br>Ers ein hadolygiad blynyddol diwethaf, mae'r Brifysgol wedi'i dyfarnu â 10 mlynedd o Ragoriaeth AD mewn Ymchwil. Mae'r amcanion strategol ar gyfer pob un o'r tair agwedd wedi'u nodi yng Nghynllun Gweithredu'r Concordat ar gyfer 2023-2026. Er mai'r Swyddfa Ymchwil sydd â goruchwyliaeth weithredol gyffredinol Cynllun Gweithredu'r Concordat, mae'r Brifysgol yn mabwysiadu dull cydweithredol o weithio ar gyfer gweithredu a chyflawni'r camau gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu gyda |

| |
|---|
| mewnbwn gan wahanol bwyllgorau, gweithgorau, a mentrau. Mae’r dull holistig hwn yn sicrhau bod y diwylliant ymchwil wedi’i ymgorffori ar draws y Brifysgol, a hynny’n strategol ac yn weithredol.<br>Dros y ddwy flynedd nesaf, ein prif nod yw creu gweithlu cynhwysol a thryloyw, yn ogystal â hyrwyddo diwylliant ymchwil cadarnhaol. Bwriad y Brifysgol yw neilltuo amser i godi ymwybyddiaeth o’r Concordat Datblygu Ymchwilwyr, yn benodol felly drwy annog ymgysylltiad gan reolwyr llinell ymchwil er mwyn helpu i ymgorffori diwylliant ymchwil ar draws pob adran. Yn ogystal, bydd y Swyddfa Ymchwil yn canolbwyntio ar ddatblygu polisïau sy’n grymuso ymchwilwyr i gymryd rhan mewn llunio polisïau, a mabwysiadu amgylchedd ymchwil mwy cadarnhaol yn y sefydliad. Fel prifysgol fechan yng nghamau cynnar y daith ymchwil, mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ymestyn ein cymuned ymchwil a’n corff myfyrwyr. Ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf, a nododd fod gennym ni bedwar cynorthwyydd ymchwil, rydym wedi cynyddu ein staff ymchwil i gynnwys chwe ymchwilydd ôl-ddoethurol, tri chymrawd ymchwil, a phedwar cynorthwyydd ymchwil. Wrth i ni barhau i dyfu’r gymuned hon, rydym wedi ymrwymo i fewnosod eu rolau yn y Brifysgol a chreu rhwydweithiau o gydweithredu a chyfle. Bydd y Brifysgol yn blaenoriaethu datblygiad proffesiynol dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd Gweithgor y Concordat yn parhau i greu canllaw “Beth yw Datblygiad Proffesiynol?” gan hefyd ddatblygu arfau ac adnoddau ar gyfer gyrfaoedd ymchwilwyr, a hynny yn y byd academaidd a thu hwnt. Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn ymgorffori 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol yn y Model Dyrannu Llwyth Gwaith, gan sefydlu templedi canolog ac olrhain adnoddau ar gyfer creu adroddiadau blynyddol ar weithgareddau datblygiad proffesiynol yr unigolyn. |

| **Crynodeb o gamau gweithredu a gymerwyd, a gwerthusiad o'r cynnydd a wnaethpwyd, yn y cyfnod adrodd presennol er mwyn gweithredu eich cynllun i gefnogi’r tair agwedd allweddol mewn perthynas â phob un o’ch grwpiau rhanddeiliaid allweddol.** | |
|---|---|
| <u>Amgylchedd a Diwylliant</u> | Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i fabwysiadu amgylchedd sy’n cyfnerthu capasiti ymchwil a datblygiad diwylliannol. Nod y brifysgol yw creu lle i ymchwilwyr drafod eu gwaith, hyrwyddo cydweithio ac arddangos eu cyflawniadau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae digwyddiadau rhwydweithio ymchwil amrywiol, fel Open House Research, Boreau Coffi Ymchwil, a'r gyfres o Ddarlithoedd Cyhoeddus a drefnwyd gan y Swyddfa Ymchwil ganolog, wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ac wedi cael llwyddiant. Ymhellach i hynny, mae sesiynau a rhwydweithiau gan staff academaidd ac ymchwil o fewn cyfadrannau ac adrannau hefyd wedi’u hannog yn weithredol.<br><br>Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Caffis Diwylliant Ymchwil canolog wedi esblygu dan arweiniad yr hyrwyddwyr concordat sydd bellach yn arwain trafodaethau ar bynciau perthnasol. Un enghraifft dda oedd dau Gaffi Diwylliant a gynhaliwyd gan ymchwilydd gyrfa gynnar sydd hefyd yn hyrwyddwr concordat. |

| | |
|---|---|
| | Roedd y caffi cyntaf yn canolbwyntio ar ymchwilio i bynciau sensitif, lle'r aeth y mynychwyr ati i fynd i'r afael â heriau gweithio gyda grwpiau ifanc a ymyleiddiwyd. Ymhlith y prif bwyntiau a drafodwyd oedd diffinio yr hyn sy'n cael ei gynnwys fel pwnc 'sensitif', gwella sgiliau gwrando gweithredol, a sicrhau dehongliadau manwl gywir o gyfraniadau cyfranogwyr. Mewn Caffi Diwylliant arall, canolbwyntiwyd ar ddulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma, gan bwysleisio pwysigrwydd defnyddio iaith sy'n ystyriol o drawma. Dywedodd yr arweinydd academaidd,<br><br>*"Roedd y Caffi Diwylliant yn ffordd wych o gysylltu ag ymchwilwyr ar faterion yn ymwneud â phynciau sensitif. Roedd y drafodaeth yn hynod fuddiol, a bydd o help wrth ddatblygu canllaw ymchwil sy'n ystyriol o drawma."*<br><br>Yn ogystal, dros y 12 mis diwethaf, mae'r gweithgor concordat wedi canolbwyntio ar wneud polisïau sefydliadol ac ymarferion sy'n ymwneud ag ymchwilwyr yn fwy cynhwysol, teg, a thryloyw. Mae cyfathrebu clir ynghylch y polisïau hyn i ymchwilwyr a'u rheolwyr wedi bod yn flaenoriaeth. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r grŵp wedi datblygu tudalennau gwe newydd ar gyfer polisïau a gweithdrefnau, gan ei gwneud hi'n haws i staff a myfyrwyr geisio gwybodaeth berthnasol. Rydym hefyd wedi gweithredu Polisi Cyfathrebu ac Ymgysylltu i sicrhau bod unrhyw bolisïau newydd neu wedi'u diweddaru yn cynnwys cyfnod ymgynghori i gasglu adborth gyda'n cymuned ymchwil. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut fyddwn ni'n cyfathrebu'r polisïau hyn yn effeithiol ar draws y brifysgol.<br><br>Mae'r Brifysgol yn cynnal dwy gynhadledd fewnol ar gyfer staff a myfyrwyr ymchwil ôl-radd. Mae'r Swyddfa Ymchwil yn goruchwylio'r Gynhadledd Sbringfwrdd Flynyddol, sydd wedi'i neilltuo i ddatblygu ymchwilwyr a dangos ymchwil ac arfer orau yn y Brifysgol. Yn 2024, thema ein Cynhadledd Sbringfwrdd fewnol flynyddol oedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn ymchwil ac yn y gweithle. Cynhaliwyd y gynhadledd dros ddiwrnod cyfan ar 17 Ebrill 2024, gyda sesiynau ymylol yn canolbwyntio ar Niwroamrywiaeth yn y gweithle yn digwydd drwy gydol wythnos y 15-19 Ebrill. Ffocws y gynhadledd oedd creu amgylchedd diogel, teg a chroesawgar sy'n dathlu gwahaniaethau pawb ac yn grymuso unigolion. Mae deall ein gwahaniaethau a dysgu am dueddiadau (yn ddiarwybod neu fel arall) a sut mae mynd i'r afael â nhw a'u rheoli yn rhan ganolog o greu diwylliant cynhwysol. Yn y gynhadledd, cafwyd archwilio, dysgu a thrafod popeth yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a |

| | |
|---|---|
| | chynhwysiant gan achub ar y cyfle i ddathlu rhai o'n hymchwil ym maes cynhwysiant.<br><br>Mae Prifysgol Wrecsam yn dilyn yn weithredol y Siarter Cydraddoldeb Hil gan Advance HE. Ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru, cefnogir yr ymdrech hon gan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (2022). Ym Mhrifysgol Wrecsam, rydym ni'n adolygu ac yn gwerthuso meysydd a all greu rhwystrau ar gyfer staff a myfyrwyr Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig i fabwysiadu synnwyr o berthyn ac i gefnogi eu dyheadau addysg a gyrfa. Mae ein hymdrechion yn cynnwys dadansoddi data a pholisïau sy'n ymwneud â datblygiad academaidd, addysgu a dysgu, dilyniant myfyrwyr, dyfarnu graddau, a recriwtio i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Ein nod yw cyflawni Nod y Siarter Cydraddoldeb Hil drwy ddatblygu a mewnosod Cynllun Gweithredu'r Siarter Cydraddoldeb, gan gyfrannu at ddull gweithredu prifysgol gyfan ar gyfer cydraddoldeb hil. Ein bwriad yw cyflwyno ein cais ym mis Mawrth 2025, ar ôl cyflwyno cais drafft ym mis Tachwedd 2024 a chael adborth cadarnhaol ac adeiladol erbyn mis Rhagfyr 2024. |
| <u>Cyflogaeth</u> | Yn 2023, diweddarodd y Brifysgol ei Pholisi Recriwtio a Dethol, gan ddangos eto ei hymrwymiad i degwch, gwrthrychedd, amrywiaeth a rhagoriaeth. Mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant, datblygiad a chymorth i'r rhai sy'n ymwneud â phrosesau recriwtio a dethol. Mae'n ofynnol i gadeirydd pob panel gwblhau cwrs hyfforddi Paneli Cyfweld i Gadeiryddion.<br><br>Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol nifer fach iawn o staff ar gontractau tymor penodol ymchwil yn unig ar hyn o bryd. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Brifysgol wedi adolygu'r templedi a swydd ddisgrifiadau a ddefnyddir ar gyfer cynorthwywyr ymchwil, ymchwilwyr ôl-ddoethurol, cymdeithion ymchwil, a chymrodorion ymchwil.<br><br>Ymhlith y sesiynau hyfforddiant newydd a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae 'Llwybrau at Ddarllenyddiaeth', 'Cael Sgwrs ynghylch Ymchwil gyda Staff' a 'Sut i gynnal Adolygiad Datblygiad Proffesiynol Effeithiol.' Nod y sesiynau hyn yw cyfarparu rheolwyr â'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygu angenrheidiol i'w helpu nhw reoli nodau a dyheadau gyrfa ymchwilwyr yn effeithiol.<br><br>Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y Brifysgol system adnoddau dynol a chyflogres integredig lawn. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r swyddfa ymchwil a'r tîm adnoddau dynol wedi creu gohebiaeth a |

| | |
|---|---|
| | chanllawiau i annog staff academaidd i gofnodi a threfnu eu gweithgareddau ymchwil ac ysgolheigaidd yn y system.<br><br>Fel rhan o'n cydweithrediad â Rhwydwaith Concordat Ymchwilwyr Cymru, gwahoddwyd Prifysgol Wrecsam i gymryd rhan mewn rhaglen ar y cyd gan Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor, gyda'r nod o wella cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ymchwil ar gyfer ymchwilwyr academaidd yng Nghymru. Mae datblygu arweinyddiaeth ymchwil a darparu cyfleoedd i gydweithio ar gyfer ymchwilwyr yn amcan allweddol yn ein cynllun gweithredu ar gyfer 2023-2026. Mae prifysgolion Cymru wedi penderfynu gweithio gyda'i gilydd i greu cronfa o sgiliau ac adnoddau drwy rannu arbenigedd a gwybodaeth ar draws sefydliadau er mwyn datblygu cydweithio cryfach mewn ymchwil ac arloesedd. Nod Rhaglen Arweinyddiaeth Ymchwil Prifysgolion Cymru yw cefnogi ymchwil drwy wella gallu i arwain, sgiliau, galluoedd a hyder ymchwilwyr i arwain a rheoli timau ymchwil yn effeithiol. Mae'r rhaglen hon yn ein caniatáu ni i dynnu ar arbenigedd mewn arweinyddiaeth o gymuned prifysgolion Cymru i fabwysiadu ymgysylltiad a rhwydweithio ar draws sefydliadau. Ar hyn o bryd, saith ymchwilydd sydd gan Brifysgol Wrecsam yn cymryd rhan yn y rhaglen ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25. |

| | |
|---|---|
| <u>Datblygiad proffesiynol</u> | Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i ddatblygu ymchwil, bywyd proffesiynol a gyrfa ei holl staff a myfyrwyr ymchwil. Cynigia'r Brifysgol amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu, sy'n cael eu rhannu'n eang ar draws y sefydliad. Mae digwyddiadau hyfforddiant i ymchwilwyr bellach ar agor i holl staff a myfyrwyr ymchwil. Darpara'r Swyddfa Ymchwil ystod gynhwysfawr o sesiynau hyfforddiant sy'n glynu wrth y Fframwaith Datblygu Ymchwil, ac maen nhw ar gael i'r holl staff a myfyrwyr ymchwil eu mynychu.<br><br>Yn ogystal, mae'r Swyddfa Datblygiad Sefydliadol ac Amrywiaeth yn cynnig gwahanol raglenni hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol staff, yn ogystal â pholisïau ac arferion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r swyddfa hon hefyd yn goruchwylio Rhaglen Aurora y Brifysgol.<br><br>Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Concordat Uniondeb Ymchwil, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn hyfforddiant Uniondeb Ymchwil Epigeum, sydd ar gael i'r holl staff a myfyrwyr ymchwil. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Brifysgol yn caniatáu i staff academaidd wneud cais am un Dyfarniad Datblygu Ymchwil (DDY) fesul blwyddyn academaidd. Nod y DDY yw helpu staff academaidd i ffurfio cydweithrediadau ymchwil allanol cynhyrchiol a chreu allbynnau ymchwil. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broses ddyfarnu fewnol, datblygodd y gweithgor concordat gynlluniau cyfathrebu a chreu tudalennau gwe cyhoeddus newydd. Yn ogystal, er mwyn dangos effaith y dyfarniadau, gwnaethom wahodd cyfranogwyr i gynnig adborth yn ystod ein Tŷ Agored ar gyfer digwyddiadau Ymchwil, lle gwnaethant rannu eu profiadau yn ymwneud â'r cynllun dyfarnu mewnol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd o 58% yn nifer y ceisiadau ar gyfer Dyfarniadau Datblygu Ymchwil. Dyma un adborth a gafwyd:<br><br>*"Mae'r dyfarniad cynhadledd hwn wedi bod yn hynod ddefnyddiol o ran fy ngalluogi i gyflwyno yn y gynhadledd, na fyddai wedi digwydd o bosibl fel arall. Roedd mynychu'r gynhadledd hon yn fy nghaniatáu i ddangos fy nghanfyddiadau ymchwil fel rhan o bortffolio ymchwil Prifysgol Wrecsam. "Credaf fod cyfleoedd o'r fath yn hollbwysig ar gyfer cyfnerthu ein gweledigaeth fel sefydliad ymchwil newydd."*<br><br>Bydd hyrwyddo Dyfarniadau Datblygu Ymchwil yn parhau yn y flwyddyn academaidd nesaf. Ymhellach i hynny, rydym wedi datblygu cynlluniau ychwanegol i hyrwyddo diwylliant ymchwil a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn arferion ymchwil yn y Brifysgol. Byddwn yn cyhoeddi dyfarniad datblygu mewnol newydd o'r enw 'Cydraddoldeb Hil a Chynhwysiant Ymchwil' i gefnogi ymchwilwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ym Mhrifysgol Wrecsam. |

| |
|---|
| **Gwersi a Ddysgwyd a Heriau** |
| Cynhaliwyd arolwg CEDAR gan Brifysgol Wrecsam am y tro cyntaf yn 2023, gan roi nifer o'n mesurau llwyddiant a amlinellwyd yng nghynllun gweithredu 2021-2023 yn erbyn cwestiynau CEDAR. Wedi dweud hynny, roedd y lefel gyfranogiad yn yr arolwg yn isel, gyda chyfradd ymateb o 13%. Er bod y data hwn wedi'i gynnwys yn ein hadroddiad cynnydd, bydd y Swyddfa Ymchwil a Gweithgor y Concordat Datblygu Ymchwilwyr yn mewnosod cynllun cyfathrebu clir i annog mwy o bobl i gymryd rhan yn arolwg CEDAR 2025. Er mwyn sicrhau y gellir mesur cyflawniadau drwy gydol y flwyddyn a bod gennym ni ystod o ddata ansoddol a meintiol ar gael, mae mecanweithiau newydd ar gyfer casglu mesurau llwyddiant wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu 2023-2026. Er gwaethaf y mentrau cyfathrebu niferus sy'n cael eu cyhoeddi, dim ond 54% o ymatebwyr arolwg CEDAR a nododd ddealltwriaeth o'r |

| |
|---|
| Concordat Datblygu Ymchwilwyr. Bydd y Swyddfa Ymchwil yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Concordat a rôl Hyrwyddwyr y Concordat yn ystod sesiynau cynefino staff ac mewn gohebiaeth â phob staff academaidd.<br><br>Rydym ni'n mabwysiadu dull cydweithredol a holistig er mwyn cyflawni ein gweithredoedd a'n hymrwymiadau i'r Concordat; fodd bynnag, mae angen rhagor o ymdrechion i sicrhau bod pob pwyllgor a gweithgor ar draws y Brifysgol yn ymwybodol o'r Concordat a'u cyfraniadau posibl at yr ymrwymiad hwn. Mae'r Swyddfa Ymchwil yn goruchwylio gweithredoedd y Concordat, ond tîm bychan ydyw. O ganlyniad, maen nhw'n defnyddio egwyddorion y Concordat fel fframwaith ar gyfer holl weithgareddau a mentrau'r Swyddfa Ymchwil. Ar adegau, gall hyn arwain at heriau o ran pennu pa bethau y dylid eu hadrodd a sut mae darparu tystiolaeth dan 'Cynllun Gweithredu y Concordat'. |
| **Edrych tua'r Dyfodol** |
| Bydd Gweithgor y Concordat Datblygu Ymchwilwyr (hyrwyddwyr concordat)<br>yn parhau i gyfarfod pedair gwaith y flwyddyn i ddiweddaru ar gynnydd yn erbyn y cynllun<br>gweithredu a thrafod syniadau newydd sydd o ddiddordeb. Mae hyrwyddwyr concordat yn gyrru ymlaen gweithredoedd<br>penodol ar ran y grŵp, gyda chymorth un aelod yn arwain, fel arfer o<br>Swyddfa Ymchwil Adnoddau Dynol. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil,<br>a fydd hefyd yn ei oruchwylio, a'r cadeirydd yw'r Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymchwil. Mae<br>mewnbwn staff ac Ymchwilwyr Ôl-radd yn hanfodol er mwyn gwerthuso a datblygu Cynllun<br>Gweithredu'r Brifysgol. Bydd safbwyntiau ymchwilwyr yn parhau i gael eu monitro dros y flwyddyn nesaf i<br>sicrhau bod ein gweithredoedd a'n mesurau llwyddiant yn parhau i fod yn berthnasol o ran cefnogi<br>staff a myfyrwyr. Rhestrir isod meysydd datblygu allweddol dros y 12 mis nesaf, fel y'u rhestrir yn ein cynllun gweithredu 2023-2026:<br>• Gweithredu cynllun bydi ymchwil newydd ar gyfer ymchwilwyr ôl-radd ac ymchwilwyr ôl-ddoethurol.<br>• Cyhoeddi Rhwydwaith Staff Niwrogynhwysiant<br>• Parhau i gefnogi ymchwilwyr/staff academaidd i gynnal caffis diwylliant yn lleol yn eu timau eu hunain neu ar draws y brifysgol yn ehangach.<br>• Annog ymchwilwyr i greu canllawiau a pholisïau ymchwil. "Canllawiau ymchwil wedi'u creu gan ymchwilwyr ar gyfer ymchwilwyr".<br>• Gwnaed yng Nghymru 2025: Straeon Gyrfaoedd Ymchwil<br>• Llofnodi'r Datganiad ar Asesu Ymchwil (DORA) a chreu gohebiaeth glir a gwefan i hyrwyddo. |

- Creu amserlen gyrfa ymchwilydd, sy'n amlinellu'r gwahanol gamau, hyfforddiant, gweithgareddau a chyfleoedd i ymchwilwyr. Bydd yr amserlen hon yn cael ei defnyddio fel adnodd mewn cyfarfodydd adolygiad datblygiad proffesiynol a chynllun ymchwil personol.
- Gweithredu system newydd ar gyfer rheoli grantiau gyda llwybrau llif gwaith clir ar gyfer ceisiadau am gyllid a gwiriadau dilysrwydd dyladwy. Bydd y system yn cael ei hymgorffori gydag arweiniad ar gyfer ymgeiswyr a llofnodwyr ar ddeddfwriaeth, polisïau a thelerau ac amodau cyllid grant.

Llofnod ar ran corff llywodraethu:

Unigolyn cyswllt ar gyfer ymholiadau:

Bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn cael ei ddadansoddi gan Universities UK, ysgrifennydd y Concordat Cefnogi Datblygiad Ymchwilwyr, er mwyn adnabod arferion da, themâu i'w datblygu a gwybodaeth i wella polisi ac ymarfer diwylliant ymchwil cenedlaethol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, neu awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r broses adrodd, cysylltwch â'r ysgrifennydd: CDRsecretariat@universitiesuk.ac.uk

www.researcherdevelopmentconcordat.ac.uk